

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol /
Direct Line: 01267
246522

Dyddiad / Date:
12 Chwefror 2021
12 February 2021

Annwyl riant / gofalwr

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trefniadau presennol ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau y bydd nifer cyfyngedig o ddysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl hanner tymor mis Chwefror.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd i gynllunio bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel mewn ffordd raddol a hyblyg o 22 Chwefror, gyda'r bwriad o weld pob un o'r disgyblion hyn yn ôl yn yr ysgol erbyn 5 Mawrth fan bellaf.

Yn amodol ar gael cadarnhad pellach, efallai bydd nifer fach o ddysgwyr uwchradd a choleg hefyd yn dychwelyd yr un pryd, er enghraifft, bydd ysgolion a cholegau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar gyrsiau cysylltiedig yn parhau i gydweithio i ddiwallu anghenion dysgwyr. Bydd ysgolion uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn parhau i roi mynediad i ddarpariaeth addysg ar y safle ar gyfer:

- dysgwyr agored i niwed
- plant gweithwyr critigol (12 oed ac iau)
- dysgwyr sy'n sefyll arholiadau neu asesiadau hanfodol

Cofiwch na ddylai plant sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (sy'n gwarchod) fynychu'r ysgol tan o leiaf 31 Mawrth, a byddan nhw'n parhau i ddysgu gartref.

Bydd yr holl ddisgyblion eraill hefyd yn parhau i ddysgu gartref am y tro. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd dychweliad yr holl ddisgyblion ysgol eraill i ddysgu wyneb yn wyneb yn cael ei gynllunio dros gyfnod hirach. Byddwn mewn cysylltiad cyn gynted ag y cawn unrhyw ddiweddariadau pellach.

Bydd eich ysgol yn parhau i'ch cefnogi â dysgu o bell, rydym wedi gweld gwaith rhagorol yn cael ei wneud dros yr wythnosau diwethaf, a hoffem ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth, rydym yn gwybod nad yw'n hawdd. Os oes gennych unrhyw broblemau, trafodwch y rhain gyda'ch ysgol yn uniongyrchol.

Cofiwch fod y cyfyngiadau llymaf ar waith yng Nghymru o hyd, a bod yn rhaid i ni i gyd ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i leihau lledaeniad y feirws ac 'aros gartref'. Mae'n hynod bwysig ein bod ni i gyd yn dal ati i ddilyn y canllawiau ynghylch golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a gorchuddion wyneb. Ni allwn orbwysleisio pa mor bwysig yw hyn i leihau'r trosglwyddo o fewn ein cymunedau.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE


Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael eich profi ar unwaith. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n positif.

I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg a dilynwch @CarmsCouncil ar Facebook a Twitter.

Diolch i chi unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.
Yn gywir



Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English